

**Arolygiad dan Adran 10
Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996**

**YSGOL GYNRADD PUM HEOL
HEOL HEN
PUM HEOL
LLANELLI
SIR GAERFYRDDIN
SA15 5EZ**

Rhif yr Ysgol: 669/2128

Dyddiad yr Arolygiad: 21-23 Mehefin 2005

gan

**Miss D Morris
Arolygydd Cofrestredig WO 83/16211**

Dyddiad: 23 Awst 2005

Dan rif contract Estyn: T/222/04P

© Hawlfraint y Goron 2005. Gellir aildefnyddio'r Adroddiad hwn yn rhad ac am ddim ar unrhyw ffurf neu gyfrwng cyhyd ag y bod yn cael ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad. Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol. O dan Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996, rhaid i'r ysgol roi copïau o'r adroddiad hwn yn rhad ac am ddim i gategorïau penodol o bobl. Hwyrach y caiff ffi heb fod yn fwy na chost atgynhychu ei chodi ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o gychwyn oed gorfodol ysgol hyd at 18 mlwydd oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd dilyniant ac yn hwyluso cyfathrebu rhwng ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn disgyblion mewn ysgol gynradd sy'n troi 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Cyfeiria Blwyddyn 1 at grŵp blwyddyn disgyblion sy'n troi 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd ac ati. Blwyddyn 13 yw grŵp blwyddyn myfyrwyr sy'n troi 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| | | | | | | | |
|----------|-----|-----|-----|-----|-----|------|-------|
| Blwyddyn | D | B 1 | B 2 | B 3 | B 4 | B 5 | B 6 |
| Oed | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| | | | | | | | |
|----------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|
| Blwyddyn | B 7 | B 8 | B 9 | B 10 | B 11 | B 12 | B 13 |
| Oed | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn cynnwys pedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

| | |
|--------------------|---------------------------|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli holl farnau'r arolygiad yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- Gradd 1** da gyda nodweddion eithriadol
- Gradd 2** nodweddion da a dim diffygion pwysig
- Gradd 3** nodweddion da yn gorbwyso diffygion
- Gradd 4** rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
- Gradd 5** llawer o ddiffygion pwysig

| Cynnwys | Tudalen |
|---|----------------|
| Cyd-destun | 1 |
| Crynodeb | 2 |
| Argymhellion | 6 |
| Safonau | 8 |
| Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? | 8 |
| Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant | 10 |
| Cwestiwn allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? | 10 |
| Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? | 11 |
| Cwestiwn allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr? | 13 |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | 15 |
| Cwestiwn allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? | 15 |
| Cwestiwn allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? | 16 |
| Cwestiwn allweddol 7: Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? | 17 |
| Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu | 18 |
| Cymraeg | 18 |
| Saesneg | 19 |
| Gwyddoniaeth | 19 |
| Dylunio a thechnoleg | 20 |
| Daearyddiaeth | 21 |
| Addysg grefyddol | 22 |
| Ymateb yr ysgol i'r arolygiad | 24 |
| Atodiadau | 25 |
| A Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol | 25 |
| B Data a dangosyddion yr ysgol | 25 |
| C Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol | 26 |
| Ch Sail dystiolaeth yr arolygiad | 27 |
| D Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu | 27 |

Cyd-destun

Natur y darparwr

1. Lleolir yr ysgol ym mhentref gwledig Pum Heol, ger Llanelli, Sir Gaerfyrddin a gwasanaetha'r pentref a'r ardal gyfagos. Mae 90 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 21 plentyn yn y dosbarth meithrin/derbyn. Mae mwyafrif helaeth y disgyblion wedi derbyn addysg gyn ysgol.
2. Nid yw'r ardal lle lleolir yr ysgol yn un ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Mae naw y cant o'r disgyblion yn derbyn prydau am ddim, canran sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol (19%) a sirol (18%).
3. Derbynia'r ysgol ddisgyblion o'r holl ystod gallu. Mae 26 (29%) ohonynt wedi eu harenwi gan yr ysgol fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig, yn cynnwys dau ddisgybl ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.
4. Dynodir yr ysgol yn un 'categori A' yn ôl polisi iaith yr awdurdod addysg lleol; golyga hyn mai'r Gymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol ond anelir at sicrhau bod y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd.
5. Saesneg yw'r brif iaith a siaredir yng nghartrefi 78% o'r disgyblion. Mae'r ysgol yn nodi bod oddeutu 75% o'r disgyblion erbyn hyn yn siarad Cymraeg i safon iaith gyntaf.
6. Arolygwyd yr ysgol yn flaenorol ym mis Chwefror 1999. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers mis Medi, 1998.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol 2004-5

7. Mae prif flaenoriaethau a thargedau'r ysgol ar gyfer 2004-2005 yn cynnwys:
 - codi safonau iaith;
 - adolygu'r gweithdrefnau asesu;
 - datblygu prosesau hunan-arfarnu;
 - cryfhau'r cysylltiad gyda diwydiant lleol;
 - parhau i sicrhau gwelliannau i'r adeilad.

Crynodeb

8. Mae'r ysgol yn llwyddo yn ei hamcanion wrth greu amgylchedd cefnogol a gofalgar. Mae'r holl staff yn adnabod y disgyblion yn dda, gan gymryd diddordeb mawr yn eu datblygiad a'u lles personol.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

9. Barnodd y tîm arolygu waith yr ysgol fel a ganlyn:

| Cwestiwn allweddol | Gradd yr arolygiad |
|---|--------------------|
| 1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? | Gradd 2 |
| 2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? | Gradd 2 |
| 3 Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? | Gradd 2 |
| 4 Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr? | Gradd 2 |
| 5 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? | Gradd 3 |
| 6 Pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? | Gradd 3 |
| 7 Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? | Gradd 3 |

Safonau

10. Yn y gwersi a arolygwyd, mae safonau cyflawniad y disgyblion fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---------|---------|---------|---------|---------|
| 0% | 60% | 40% | 0% | 0% |

11. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion a gwnânt gynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.
12. Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, mae safonau cyflawniad y disgyblion yn y pynciau a arolygwyd fel a ganlyn:

| Pynciau | Cyfnod allweddol 1 | Cyfnod allweddol 2 |
|----------------------|--------------------|--------------------|
| Cymraeg | Gradd 3 | Gradd 3 |
| Saesneg | ---- | Gradd 2 |
| Gwyddoniaeth | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Dylunio a thechnoleg | Gradd 3 | Gradd 3 |
| Daearyddiaeth | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Addysg grefyddol | Gradd 2 | Gradd 2 |

13. Gwna'r disgyblion gynnydd cyson yn eu dysgu a llwyddant i gyflawni'r nodau dysgu cytunedig.
14. Mae plant y Blynyddoedd Cynnar yn gwneud cynnydd da mewn gwrando, siarad, darllen, ysgrifennu, rhifedd a defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
15. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae safonau a chynnydd disgyblion unigol ym medrau allweddol llythrennedd sef gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg ar draws y cwricwlwm, yn dda. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn ymestyn eu medrau llythrennedd yn gyson ar draws y pynciau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau medrau siarad, gwrando ac ysgrifennu Saesneg mwyafrif helaeth y disgyblion yn dda. Ni wna'r disgyblion ddefnydd digonol o'u medrau darllen i gasglu gwybodaeth o wahanol ffynonellau, yn arbennig llyfrau cyfair, yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.
16. Yn y ddau gyfnod allweddol, gwna'r disgyblion ddefnydd da o'u medrau rhifedd yn eu gwaith ar draws y pynciau. Mae disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn defnyddio eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn effeithiol mewn rhai pynciau, ond nid ydynt yn datblygu ac yn ymestyn y medrau hyn yn ddigon rheolaidd.
17. Dengys safonau a chynnydd disgyblion yn eu hyfedredd dwyieithog gynnydd da.
18. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da a weithiau da iawn, a chyflawnant y targedau a osodir iddynt. Mae gan y disgyblion eraill dargedau gwelliant i ymgyrraedd atynt. Yn gyffredinol, nid oes ganddynt ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ddigonol o'u cryfderau a'u gwendidau a'r hyn mae'n rhaid iddynt ei wneud i gyflawni safonau uwch.
19. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 1, yn nhasgau asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2004, roedd cyrhaeddiad disgyblion yn ôl asesiadau'r athrawon yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. O'u cymharu ag ysgolion ledled Cymru â chanran gyffelyb o ddisgyblion â'r hawl i ginio am ddim, roedd canlyniadau'r ysgol at ei gilydd yn y 50% uchaf. Mae canlyniadau'r ysgol wedi dal yn gyson dros y tair blynedd diwethaf, ac nid oes unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched.
20. Yng nghyfnod allweddol 2, roedd cyrhaeddiad y disgyblion yn nhasgau a phrofion y Cwricwlwm Cenedlaethol 2004 yn uwch na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol yng ngwyddoniaeth ond yn is yn y Gymraeg, Saesneg a mathemateg. Mae canlyniadau'r ysgol at ei gilydd dros y tair blynedd diwethaf wedi bod yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol a sirol. O'u cymharu ag ysgolion ledled Cymru â chanran gyffelyb o ddisgyblion â'r hawl i ginio am ddim, roedd canlyniadau'r ysgol at ei gilydd yn 2004, yn y 50% isaf. Nid oes unrhyw wahaniaethau arwyddocaol ym mherfformiad bechgyn a merched.

21. Dengys disgyblion ddatblygiad da yn eu medrau personol a chymdeithasol, ac yn eu gallu i gydweithio. Mae medrau dysgu'r disgyblion yn datblygu'n dda a gwelir cynnydd cyson yn eu medrau datrys problemau a'u medrau creadigol. Weithiau, mae disgyblion mwy galluog yn gweithio ar dasgau nad ydynt yn cynnig digon o her i ymestyn eu dysgu.
22. Mae agweddau disgyblion tuag at eu dysgu, y diddordeb a ddangosant yn eu gwaith a'u gallu i ganolbwyntio yn dda. Ar adegau, maent yn dibynnu'n ormodol ar gymorth oedolion i'w cynorthwyo gyda'u tasgau.
23. Mae ymwybyddiaeth disgyblion o gyfleoedd cyfartal yn datblygu'n dda ac mae ganddynt barch at yr amrywiol gredoau, agweddau a thraddodiadau diwylliannol a geir mewn cymdeithas.
24. Mae ymddygiad y disgyblion yn dda iawn. Mae ganddynt ddealltwriaeth eglur o'r hyn a ddisgwylir oddi wrthynt ac maent yn ystyriol a chwrtais. Mae ymddygiad arbennig y disgyblion yn cyfrannu'n arwyddocaol i'r awyrgylch gartrefol a chynorthwyol sydd yn yr ysgol. Mae hon yn nodwedd ragorol o'r ddarpariaeth.
25. Ar gyfer y tri thymor cyn yr arolygiad, 95% oedd canran y presenoldeb ar gyfartaledd. Mae mwyafrif helaeth y disgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac maent yn brydlon ar ddechrau'r dydd.
26. Mae'r disgyblion yn ymwybodol iawn am fywyd cymunedol eu hardal a chyfrannant i lawer o achlysuron lleol. Maent yn gyfarwydd â rhai agweddau o fyd gwaith drwy ychydig ymweliadau. Er hynny, prin yw gwybodaeth y disgyblion o fyd gwaith.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

27. Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd bod ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|
| 5% | 55% | 40% | 0% | 0% |

28. Mae'r nodweddion da a rhagorol i'r addysgu yn cynnwys:
 - amcanion eglur i'r addysgu a'r dysgu;
 - cyflwyniadau ysgogus ac esboniadau clir;
 - cydadweithio effeithiol rhwng athro a disgybl;
 - holi da sy'n annog disgyblion i feddwl cyn cynnig atebion;
 - tasgau heriol ac ymestynnol.
29. Mae'r diffygion mwyaf cyffredin yn yr addysgu'n cynnwys:
 - cyfleoedd annigonol i'r disgyblion i ymestyn eu medrau llafar a'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu;
 - tasgau a gweithgareddau heb eu strwythuro'n ddigon manwl ar gyfer anghenion disgyblion o wahanol oed a gallu yn y dosbarthiadau;
 - cyfleoedd annigonol i'r disgyblion i weithio'n annibynnol;

- gor-ddefnydd o daflenni gwaith.
30. Mae gan yr ysgol ystod o weithdrefnau addas ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd y disgyblion. Yn yr arfer orau, gwneir defnydd da o asesu i hybu'r cynllunio ac adnabod yr hyn sydd angen i'r disgyblion ei wneud i wella safon eu gwaith. Nid yw'r drefn yn gyson ar draws yr ysgol. Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni o ansawdd da.
 31. Ar y cyfan, mae'r ysgol yn ymateb yn dda i anghenion dysgu disgyblion ac fe gânt gyfleoedd cyfartal i fanteisio ar gwricwlwm eang a chytbwys. Mae'r cynlluniau gwaith ar gyfer y ddau gyfnod allweddol yn amrywio o ran manylder ac arweiniad. Mae lle i sicrhau cysondeb ysgol-gyfan mewn cynlluniau byr dymor yr athrawon, ynghyd â'r datblygiad mwy bwriadus o fedrau allweddol, yn enwedig medrau llythrennedd Cymraeg, a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion.
 32. Hyrwyddir datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae'r weithred o gyd-addoli yn cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth disgyblion o faterion moesol ac ysbrydol.
 33. Mae'r bartneriaeth gyda'r rhieni yn dda ac yn ystod yr ymgynghoriad cyn- arolygiad gwelwyd eu bod yn gwerthfawrogi'r hyn a ddarperir gan yr ysgol. Mae'r ysgol wedi cwrdd â'r gofynion i ddosbarthu cytundeb cartref ag ysgol, ond nid oes cyfran uchel o'r cytundebau wedi eu dychwelyd.
 34. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn dda ac fe gyflawna ofynion y Côt Ymarfer.
 35. Mae'r ysgol eisoes wedi mynegi consŷrn am un mater yn ymwneud â iechyd a diogelwch ac mae'r tîm arolygu o'r farn y byddai'n briodol i ofyn am asesiad risg ac adroddiad ffurfiol arbenigwyr er cael arweiniad pellach ar y mater.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

36. Mae rheolaeth y pennaeth yn bwrpasol ac mae'n cynnig cyfeiriad clir i waith yr ysgol. Caiff nodau a gwerthoedd cytûn, sy'n hyrwyddo cydraddoldeb i bawb, eu hadlewyrchu'n dda yng ngwaith yr ysgol.
37. Cydweithia'r staff yn dda a dangosant ymrwymiad mawr i'r ysgol. Caiff eu datblygiad proffesiynol parhaus ei hyrwyddo'n effeithiol.
38. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen ddefnyddiol sy'n cynnwys nodau a thargedau priodol sy'n seiliedig ar anghenion yr ysgol. Gwneir cynnydd cyson i gyflawni'r priif flaenoriaethau. Nid yw gweithdrefnau monitro ac arfanu'r ysgol wedi eu datblygu'n ddigonol er sicrhau gwelliant pellach.
39. Lluniwyd ystod eang o bolisiâu ysgol-gyfan a chânt eu gweithredu'n gyson. Er hynny, nid yw rhai gweithdrefnau na chynnwys llawlyfr yr ysgol ac adroddiad blynyddol y corff llywodraethol i'r rhieni, yn cwrdd yn llawn â'r gofynion cyfredol.

40. Mae'r adroddiad hunan-arfarnu, a gynhyrchwyd gan yr ysgol cyn yr arolygiad, yn glir ac yn ddarllenadwy. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barnau'r ysgol mewn pump allan o'r saith cwestiwn allweddol. Dyfarnwyd graddau is ar gyfer cwestiynau allweddol 5 a 6.
41. Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth dda am anghenion yr ysgol a chyfrannant yn effeithiol at osod cyfeiriad strategol i'r ysgol. Mae aelodau yn ymweld â'r ysgol i drafod ac i arsylwi ar agweddau ar y ddarpariaeth, ond nid yw eu cyfraniad i'r broses hunan-arfarnu wedi'i ddatblygu'n ddigonol.
42. Gwnaeth yr ysgol gynnydd da ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r mwyafrif o'r materion allweddol wedi'u bodloni. Er hynny, mae angen sylw pellach ar rai materion megis datblygu gweithdrefnau hunan-arfarnu.
43. Mae nifer digonol o athrawon a staff cynnal i ymgymryd â gwaith yr ysgol. Ar y cyfan, mae swm, a chyflwr, yr adnoddau ar gyfer addysgu a dysgu yn ddigonol ac maent yn hwylus i'r disgyblion eu defnyddio. Er hynny, nid oes digon o gyfrifiaduron ar gael yn y dosbarthiadau i ganiatáu'r disgyblion i ddefnyddio eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn rheolaidd.
44. Ar y cyfan, mae adeilad yr ysgol mewn cyflwr da a chaiff ei gadw'n lan a thaclus. Mae maint rhai ystafelloedd, yn arbennig ystafelloedd ar gyfer disgyblion blwyddyn 1 a 2 a'r blynyddoedd cynnar, yn gyfyng ac yn amharu ar rai agweddau ar y dysgu a'r addysgu. Nid yw toiledau'r disgyblion ieuengaf ychwaith wedi eu haddasu'n briodol ar gyfer anghenion plant dan bump oed. Mae cynlluniau adeiladu ar waith i wella'r adeilad a'r cyfleusterau dysgu i'r disgyblion.
45. Gwneir defnydd effeithiol o'r amgylchedd lleol, y gymuned a safleoedd addysgol i gyfoethogi dysgu'r disgyblion. Mae'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr yn adolygu'r defnydd o adnoddau yn rheolaidd a chynigia'r ysgol werth am arian.

Argymhellion

Er mwyn gwella'r meysydd a arolygwyd yn yr ysgol, mae angen i'r staff a'r llywodraethwyr:

- A1. gynnal y safonau da a gwella safonau mewn pynciau a meysydd eraill trwy fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd;
- A2. ymestyn medrau llythrennedd Cymraeg a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion ar draws y cwricwlwm;
- A3. ledaenu'r arfer dda er mwyn sefydlu trefn ysgol-gyfan ar gyfer cynllunio ac asesu'r cwricwlwm;
- A4. ddatblygu ymhellach y drefn hunan-arfarnu fel modd i sicrhau gwelliant;

- A5. sicrhau bod gweithdrefnau'r ysgol a chynnwys y dogfennaeth yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion cyfredol;
- A6. sicrhau asesiad risg ac adroddiad ffurfiol arbenigwyr er cael arweiniad pellach ar y mater iechyd a diogelwch a drafodwyd gyda'r pennaeth a'r Corff Llywodraethol.

Y corff llywodraethol sy'n gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu presennol i ymgorffori camau mewn ymateb i'r argymhellion o fewn 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn mae'r ysgol yn bwriadu ei wneud am yr argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodedb ohono, yn cael ei ddsbarthu i holl rieni'r ysgol.

Safonau

Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

46. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
47. Yn y gwersi a arolygwyd, mae safonau cyflawniad y disgyblion fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---------|---------|---------|---------|---------|
| 0% | 60% | 40% | 0% | 0% |

48. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion a gwnânt gynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.
49. Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, mae safonau cyflawniad y disgyblion yn y pynciau a arolygwyd fel a ganlyn:

| Pynciau | Cyfnod allweddol 1 | Cyfnod allweddol 2 |
|----------------------|--------------------|--------------------|
| Cymraeg | Gradd 3 | Gradd 3 |
| Saesneg | --- | Gradd 2 |
| Gwyddoniaeth | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Dylunio a thechnoleg | Gradd 3 | Gradd 3 |
| Daearyddiaeth | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Addysg grefyddol | Gradd 2 | Gradd 2 |

50. Gwna'r disgyblion gynnydd cyson yn eu dysgu a llwyddant i gyflawni'r nodau dysgu cytunedig.
51. Gwna'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig gynnydd da a weithiau da iawn yn eu gwaith.
52. Mae plant y Blynyddoedd Cynnar yn gwneud cynnydd da mewn gwrando, siarad, darllen, ysgrifennu, rhifedd a defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
53. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae safonau a chynnydd disgyblion unigol ym medrau allweddol llythrennedd sef gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg ar draws y cwricwlwm, yn dda. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn ymestyn eu medrau llythrennedd yn gyson ar draws y pynciau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau medrau siarad, gwrando ac ysgrifennu Saesneg mwyafrif helaeth y disgyblion yn dda. Nid yw'r disgyblion yn gwneud defnydd digonol o'u medrau darllen i gasglu gwybodaeth o wahanol ffynonellau, yn arbennig llyfrau cyfair, yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

54. Yn y ddau gyfnod allweddol, gwna'r disgyblion ddefnydd da o'u medrau rhifedd yn eu gwaith ar draws y pynciau. Defnyddiant eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gynorthwyo eu gwaith mewn rhai pynciau, ond nid ydynt yn datblygu ac yn ymestyn y medrau hyn yn ddigon rheolaidd.
55. Dengys safonau a chynnydd disgyblion yn eu hyfedredd dwyieithog gynnydd da.
56. Dengys disgyblion ddatblygiad da yn eu medrau personol a chymdeithasol, ac yn eu gallu i gydweithio. Mae medrau dysgu'r disgyblion yn datblygu'n dda a gwelir cynnydd cyson yn eu medrau datrys problemau a'u medrau creadigol. Weithiau, mae disgyblion mwy galluog yn gweithio ar dasgau nad ydynt yn cynnig digon o her i ymestyn eu dysgu.
57. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 1, yn nhasgau asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2004, roedd cyrhaeddiad disgyblion yn ôl asesiadau'r athrawon yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. O'u cymharu ag ysgolion ledled Cymru â chanran gyffelyb o ddisgyblion â'r hawl i ginio am ddim, roedd canlyniadau'r ysgol at ei gilydd yn y 50% uchaf. Mae canlyniadau'r ysgol wedi dal yn gyson dros y tair blynedd diwethaf ac nid oes unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched.
58. Yng nghyfnod allweddol 2, roedd cyrhaeddiad y disgyblion yn nhasgau a phrofion y Cwricwlwm Cenedlaethol 2004 yn uwch na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol yng ngwyddoniaeth ond yn is yn y Gymraeg, Saesneg a mathemateg. Mae canlyniadau'r ysgol at ei gilydd dros y tair blynedd diwethaf wedi bod yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol a sirol. O'u cymharu ag ysgolion ledled Cymru â chanran gyffelyb o ddisgyblion â'r hawl i ginio am ddim, roedd canlyniadau'r ysgol at ei gilydd yn 2004, yn y 50% isaf. Nid oes unrhyw wahaniaethau arwyddocaol ym mherfformiad bechgyn a merched
59. Mae agweddau disgyblion tuag at eu dysgu, y diddordeb a ddangosant yn eu gwaith a'u gallu i ganolbwyntio yn dda. Maent yn gweithio'n galed yn eu gwersi, gan ymuno'n barod yn yr ystod o weithgareddau a ddarperir. Ar adegau, mae disgyblion yn dibynnu'n ormodol ar gymorth oedolion i'w cynorthwyo gyda'u tasgau.
60. Mae disgyblion wedi dechrau adnabod rhai agweddau yn eu gwaith y mae angen iddynt eu gwella ond, yn gyffredinol, nid yw eu gallu i werthuso eu gwaith yn ôl y targedau a osodwyd ac i ddynodi'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud i wella wedi'i ddatblygu'n ddigonol.
61. Mae ymwybyddiaeth disgyblion o gyfleoedd cyfartal yn datblygu'n dda ac mae ganddynt barch at yr amrywiol gredoau, agweddau a thraddodiadau diwylliannol a geir mewn cymdeithas.
62. Mae ymddygiad y disgyblion yn dda iawn. Mae ganddynt ddealltwriaeth eglur o'r hyn a ddisgwylir oddi wrthynt ac maent yn ystyriol a chwrtais. Mae ymddygiad arbennig y disgyblion yn cyfrannu'n arwyddocaol i'r awyrgylch

gartrefol a chynorthwyol sydd yn yr ysgol. Mae hon yn nodwedd ragorol o'r ddarpariaeth.

63. Ar gyfer y tri thymor cyn yr arolygiad, 95% oedd canran y presenoldeb ar gyfartaledd. Mae mwyafrif helaeth y disgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac maent yn brydlon ar ddechrau'r dydd. Ychydig iawn o absenoldeb anawdurdodedig sydd.
64. Mae'r disgyblion yn ymwybodol iawn am fywyd cymunedol eu hardal a chyfrannant i lawer o achlysuron lleol. Drwy ychydig ymweliadau, mae'r disgyblion yn gyfarwydd â rhai agweddau o fyd gwaith. Er hynny, prin yw eu gwybodaeth o fyd gwaith.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

65. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
66. Mae ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth addysgol yn diwallu anghenion y disgyblion a gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol.
67. Medda'r athrawon ar wybodaeth bynciol dda. Maent yn paratoi eu gwersi'n drylwyr a gwnânt ddefnydd da o adnoddau pwrpasol ac o ystod o ddulliau addysgu sy'n cydweddu â nodau'r gwersi.
68. Yn y Blynyddoedd Cynnar, darperir amrywiaeth eang a symbylus o brofiadau dysgu sy'n cefnogi'r chwe maes dysgu.
69. Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd bod ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|
| 5% | 55% | 40% | 0% | 0% |

70. Mae gan yr athrawon berthynas dda iawn â'u disgyblion a chynigiant gefnogaeth gyson iddynt. Sicrheir bod disgyblion o bob gallu yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau dosbarth ac yn cael cyfleoedd i gynnig syniadau ac i ymateb i gwestiynau.
71. Llwyddir i feithrin hyfedredd dwyieithog y disgyblion drwy gadarnhau ac atgyfnerthu pwrpasol yn ogystal â chynnig anogaeth a chymorth sensitif.
72. Mae'r nodweddion da a rhagorol i'r addysgu yn cynnwys:
- amcanion eglur i'r addysgu a'r dysgu;
 - cyflwyniadau ysgogus ac esboniadau clir;
 - cydadweithio effeithiol rhwng athro a disgybl;

- holi da sy'n annog disgyblion i feddwl ac ystyried cyn cynnig atebion;
 - tasgau heriol ac ymestynnol.
73. Mae'r diffygion mwyaf cyffredin yn yr addysgu'n cynnwys:
- cyfleodd annigonol i'r disgyblion i ymestyn eu medrau llafar a'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu;
 - tasgau a gweithgareddau heb eu strwythuro'n ddigon manwl ar gyfer anghenion disgyblion o wahanol oed a gallu yn y dosbarthiadau;
 - cyfleoedd annigonol i'r disgyblion i weithio'n annibynnol;
 - gor-ddefnydd o daflenni gwaith.
74. Mae gan yr ysgol ystod o weithdrefnau addas ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd y disgyblion. Yn yr arfer orau, gwneir defnydd da o asesu i hybu'r cynllunio ac adnabod yr hyn sydd angen i'r disgyblion ei wneud i wella eu gwaith. Nid yw'r drefn yn gyson ar draws yr ysgol.
75. Yn y Blynyddoedd Cynnar a chyfnod allweddol 1, mae'r drefn asesu'n glir ac mae'n dangos datblygiad yn y chwe maes dysgu ar gyfer plant dan bump oed, a'r Cwricwlwm Cenedlaethol hyd at ddiwedd blwyddyn 2. Cedwir cofnodion manwl, gan gynnwys asesiadau gwaelodlin, a nodir yn eglur y camau nesaf sydd i'w cymryd yn natblygiad y disgyblion.
76. Yng nghyfnod allweddol 2, asesir y pynciau craidd yn flynyddol a chedwir cofnodion cynhwysfawr o gyflawniadau disgyblion mewn profion cenedlaethol, a thasgau ac asesiadau safonol eraill. Caiff y delliannau eu ddefnyddio'n effeithiol i adnabod targedau pwrpasol. Yn ddiweddar, dechreuwyd ar y gwaith o gynhyrchu portffolios pynciol yn y pynciau craidd. Mae'r portffolio Cymraeg yn cynnwys detholiad o enghreifftiau safonedig o waith disgyblion. Megis cychwyn y mae'r drefn asesu'r pynciau sylfaen.
77. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer adnabod ac asesu disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.
78. Caiff gwaith y disgyblion ei farcio'n rheolaidd, ac yn yr arfer orau, ceir sylwadau pwrpasol ar lyfrau'r disgyblion sy'n rhoi arweiniad clir iddynt ar sut i wella eu gwaith. Yn gyffredinol, canmol ymdrech a wneir a hynny heb gyfeiriad at safon y gwaith.
79. Caiff y rhieni eu gwahodd yn ffurfiol i'r ysgol ddwywaith y flwyddyn i weld a thrafod gwaith eu plant gyda'r athrawon. Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn cydymffurfio â'r gofynion statudol ac maent o ansawdd da. Trafodir yr adroddiadau hyn gyda'r rhieni ac awgrymir iddynt ddulliau i gefnogi gwaith eu plant. Gwerthfawroga'r rhieni y cyfleoedd a gânt i drafod datblygiad eu plant.

Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

80. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
81. Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i anghenion dysgu disgyblion ac yn darparu cwricwlwm eang a pherthnasol ar draws y cyfnodau allweddol. Mae'n cynnig cydbwysedd addas rhwng pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn cwrdd â'r gofynion statudol.
82. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at Ganlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant. Mae'r cynlluniau'n dda ac yn arwain yn naturiol at raglenni astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol.
83. Mae'r cynlluniau gwaith ar gyfer y ddau gyfnod allweddol yn amrywio o ran manylder ac arweiniad. Mae lle i sicrhau cysondeb ysgol-gyfan mewn cynlluniau byr dymor yr athrawon, ynghyd â'r datblygiad mwy bwriadus o'r medrau allweddol, yn enwedig medrau llythrennedd Cymraeg a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion.
84. Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau allgyrsiol, megis y clwb gwyddbwyll, yr Urdd, a thwrnameintiau chwaraeon yn erbyn ysgolion lleol, lle ceir cryn lwyddiant mewn criced a phêl droed. Mae'r gweithgareddau hefyd yn cynnwys ymweliadau preswyl i Langrannog, yn ogystal ag ymweliadau lleol a thu hwnt sydd yn ymwneud â'r themâu dosbarth.
85. Hyrwyddir datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae'r weithred o gyd-addoli yn cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth disgyblion o faterion moesol ac ysbrydol ac yn eu helpu i barchu gwirionedd a chyfiawnder. Ceir naws ddefosiynol yn y gwasanaethau a rhoddir cyfleoedd da i'r disgyblion gymryd rhan a myfyrio ynddynt.
86. Caiff disgyblion eu cymell i godi arian at wahanol elusennau cenedlaethol ac mae hyn yn pwysleisio cyfrifoldeb unigolion tuag at eu cymuned a'r byd ehangach.
87. Mae'r bartneriaeth gyda'r rhieni yn dda, ac yn ystod yr ymgynghoriad cyn-arolygiad gwelwyd eu bod yn gwerthfawrogi'r hyn a ddarperir gan yr ysgol. Maent yn barod i gynorthwyo ac ymatebant yn frwd pan gwyd yr angen. Mae'r ysgol wedi cwrdd â'r gofynion i ddsbarthu cytundeb cartref ag ysgol, ond nid oes cyfran uchel o'r cytundebau wedi eu dychwelyd.
88. At ei gilydd, mae gweithdrefnau da mewn lle er hwyluso trosglwyddiad disgyblion i'r sector uwchradd ac mae'r gwaith o bontio cwricwlwm cyfnodau allweddol 2 a 3 yn datblygu. Mae partneriaeth ffurfiol ac effeithiol yn bodoli gyda choleg hyfforddi athrawon ac mae'r ysgol yn derbyn myfyrwyr yn rheolaidd.
89. Mae cyswllt cryf rhwng yr ysgol a'r gwahanol elfennau o'r gymuned leol sydd yn darparu cyfleoedd da iawn i ddatblygu ymwybyddiaeth a pharch disgyblion at eu cymuned. Cyfrannant yn dda at nifer o achlysuron lleol a defnyddir yr

ardal fel adnodd effeithiol gan yr ysgol. Mae perthynas agos, cynorthwyol ac effeithiol gyda'r cylch chwarae lleol.

90. Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i'r Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol ac yn gwneud darpariaeth dda ar gyfer y disgyblion. Mae hefyd yn gweithredu o ddydd-i-ddydd fel Ysgol Iach ac yn hybu'r arfer o fwya ffrwythau amser egwyl.
91. Ar hyn o bryd, prin yw'r ddarpariaeth ar gyfer addysg gysylltiedig â byd gwaith, er y ceir enghreifftiau o ymweliadau â siopau lleol a gan ymwelwyr. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn nodi'r bwriad i ddatblygu'r agwedd hon ymhellach.
92. Rhoddir pwyslais da i'r dimensiwn Cymreig o fewn y cwricwlwm ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu a datblygu medrau dwyieithog y disgyblion yn gadarn.
93. Mae ei pholisi cyfleoedd cyfartal yn adlewyrchu ymrwymiad yr ysgol i annog disgyblion i werthfawrogi'r cydraddoldeb a ddarperir i bob un ohonynt.
94. Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol drwy eu gwaith cwricwlaidd ac elusennol, ynghyd â chysylltiadau achlysurol gyda gwledydd tramor, fel yr Wcrain.
95. Ceir darpariaeth dda er hyrwyddo addysg disgyblion ar gyfer datblygiad cynaliadwy. Eisoës enillwyd y fedal efydd am fod yn ysgol Eco. Mae'r disgyblion yn deall pwysigrwydd ailgylchu gwastraff ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb am yr amgylchedd.
96. Mae profiadau dysgu'r disgyblion ar draws y cwricwlwm yn eu galluogi i ennill ystod o fedrau gwerthfawr ar gyfer datblygu agweddau cadarnhaol a medrau dysgu gydol oes. Er hynny, ni cheir cyfleoedd digonol ar gyfer datblygu medrau menter y disgyblion.

Cwestiwn allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

97. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
98. Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chyfeillgar. Mae'r athrawon yn adnabod anghenion gwahanol y disgyblion ac yn darparu'n gynhaliol ar eu cyfer. Maent yn cydweithio'n agos gyda rhieni a gofalwyr wrth roi cynhaliadau ac arweiniad. Mae'r disgyblion yn siarad yn rhwydd gyda'r staff ac yn barod i ofyn am gymorth a chyfarwyddyd pan gwyd yr angen. Caiff pawb gyfle cyfartal.
99. Mae rhaglen sefydlu ar gyfer y plant dan bump oed yn dda. Cynhelir bore coffi i groesawu'r rhieni a gwahoddir y plant i ymuno â'r dosbarth am gyfnodau cyn iddynt fynychu'r ysgol yn swyddogol. Mae'r disgyblion a ddaeth i'r ysgol fel

hwyrddyfodiaid yn teimlo'u bod yn cael eu croesawu a'u cefnogi wrth i'r disgyblion ac athrawon eu helpu i setlo i fywyd a threfn eu hysgol newydd.

100. Caiff bywyd yr ysgol ei fonitro'n ofalus i sicrhau nad oes ymddygiad gormesol yn effeithio ar gyfleoedd disgyblion. Gwneir defnydd da o system gyfrifiadurol i fonitro presenoldeb yn fanwl. Lle mae unigolion yn peri gofid, mae cyswllt agored gyda'r cartref, ond nid yw hyn yn hollol effeithiol. Nid yw'r cofrestru o bresenoldeb yn cydymffurfio yn llawn â'r gofynion oherwydd diffygion yn y modd y caiff y sesiynau prynhawn eu cofnodi.
101. Gweithredir polisïau addas ac effeithiol ar gyfer amddiffyn plant, ac i sicrhau eu lles, iechyd a diogelwch. Mae pob aelod o'r staff yn meddu ar gymwysterau cymorth cyntaf cyfredol. Mae'r ysgol eisoes wedi mynegi consŷrn am un mater yn ymwneud â iechyd a diogelwch ac mae'r tîm arolygu o'r farn y byddai'n briodol i ofyn am asesiad risg ac adroddiad ffurfiol arbenigwyr er cael arweiniad pellach ar y mater.
102. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn dda ac fe gyflawna ofynion y Côt Ymarfer. Mae dau ddisgybl ar gyfnod sylw ysgol, 13 o ddisgyblion ar gyfnod gweithredu ysgol, wyth ar gyfnod gweithredu ysgol a mwy, a dau ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.
103. Rhoddir cefnogaeth dda ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig. Maent yn derbyn sylw unigol tu fewn i'r dosbarth ac mewn sesiynau neilltuo gan athrawes arbenigol. Cynllunnir yn effeithiol ar gyfer y sesiynau neilltuo, gan ganolbwyntio ar anghenion penodol disgyblion unigol a grwpiau bach.
104. Caiff y disgyblion gefnogaeth werthfawr gan gymorthyddion sy'n cyfrannu'n bwrpasol at eu datblygiad a'u hanghenion.
105. Mae'r cynlluniau addysg unigol sydd gan ddisgyblion yn rhoi arweiniad clir a phwrpasol ac fe gânt eu hadolygu yn dymhorol.
106. Gwna'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig gynnydd da a weithiau da iawn. Cânt bob cyfle i chwarae rhan lawn ym mhob agwedd o waith a bywyd yr ysgol. Mae'r dyrannu o gyllid ychwanegol o'r gwarged sydd wrth gefn gan yr ysgol ar gyfer y ddarpariaeth anghenion arbennig, yn nodwedd i'w chanmol.
107. Mae'r aelod perthnasol o'r corff llywodraethol yn ymwybodol iawn o'i chyfrifoldebau ac yn eu gweithredu'n gydwybodol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n briodol gyda'r rhieni, asiantaethau allanol a'r ysgolion uwchradd. Mae lle i sicrhau gwell cyswllt rhwng yr ysgol a'r asiantaethau priodol mewn perthynas â gweithredu'r protocol gogyfer â phlant sydd yn derbyn gofal.
108. Mae'r disgyblion wedi dysgu am y broses ddemocrataidd trwy gynnal etholiad i ddewis aelodau ar gyfer Cyngor yr Ysgol. Mae'r Cyngor bellach wedi ymsefydlu'n dda ac wedi cael cyfle i ddylanwadu ar faterion sydd yn effeithio ar fywydau dyddiol disgyblion yn yr ysgol.

109. Mae polisïau ac arferion yr ysgol yn meithrin ymagweddau positif ymhlith y disgyblion ar faterion megis cydnabod amryfalaeth a hyrwyddo cydraddoldeb ar sail hil, cefndir a rhyw. Cefnogir y farn hon yn ystod trafodaethau'r arolygwyr gyda'r disgyblion. Yn ystod yr arolygiad, ni welwyd unrhyw dystiolaeth o ymddygiad annerbyniol neu ymosodol.
110. Mae'r ysgol yn cymryd camau i sicrhau na fydd disgyblion anabl yn dioddef o gael eu trin yn llai ffafriol, ond nid yw eto wedi paratoi cynllun ar gyfer gwneud gwelliannau o ran mynediad corfforol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

111. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn wahanol i hunan-arfarniad yr ysgol i'r graddau bod yr ysgol wedi rhoi Gradd 2 i'r cwestiwn allweddol hwn.
112. Mae rheolaeth y pennaeth yn bwrpasol ac mae'n cynnig cyfeiriad clir i waith yr ysgol. Caiff nodau a gwerthoedd cytûn, sy'n hyrwyddo cydraddoldeb i bawb, eu hadlewyrchu'n dda yng ngwaith yr ysgol.
113. Mae'r holl staff yn cydweithio'n dda a dangosant ymrwymiad mawr i'r ysgol.
114. Mae gan yr ysgol ddull addas o osod targedau ysgol-gyfan er anghyson yw'r defnydd o dargedau meintiol. Mae canfyddiadau'r broses hunan-arfarnu yn bwydo i'r cynllun datblygu a cheir nodau a thargedau priodol sy'n seiliedig ar anghenion yr ysgol. Gwneir cynnydd cyson tuag at gyflawni'r prif flaenoriaethau. Rheolir y gyllideb yn ofalus ac fe gysylltir gwariant yn agos â blaenoriaethau'r ysgol.
115. Lluniwyd ystod eang o bolisïau ysgol-gyfan a chânt eu gweithredu'n briodol. Er hynny, nid yw cynnwys holl ddogfennaeth yr ysgol, megis llawlyfr yr ysgol ac adroddiad blynyddol y corff llywodraethol i'r rhieni, yn cwrdd yn llawn â'r gofynion statudol. Nid yw gweithdrefnau'r ysgol ychwaith yn rhoi sylw digonol bob amser i'r gofynion cyfredol.
116. Mae gan yr ysgol ystod o weithdrefnau monitro ac arfarnu, ond nid yw'r trefniadau presennol wedi'u datblygu'n ddigonol i hyrwyddo gwelliannau pellach.
117. Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae cyfraniad y disgyblion a'r staff i fentrau, megis Cynllun Eco Ysgolion a Chynllun Ysgol Iach yn cyfrannu'n uniongyrchol at ansawdd bywyd ac amgylchedd yr ysgol.
118. Mae cynllun rheoli perfformiad yr ysgol yn gweithio'n effeithiol. Caiff gofynion hyfforddi staff eu harchwilio'n gyson ac mae hyn yn hyrwyddo datblygiad

proffesiynol parhaus ac yn cyfrannu at wella ansawdd y ddarpariaeth addysgol.

119. Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth dda am anghenion yr ysgol a chyfrannant yn effeithiol at osod cyfeiriad strategol i'r ysgol. Mae aelodau yn ymweld â'r ysgol i drafod ac i arsylwi ar agweddau ar y ddarpariaeth ond nid yw eu cyfraniad i'r broses hunan-arfarnu wedi'i ddatblygu'n ddigonol.
120. Mae'r corff llywodraethol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cyflawni ei holl ofynion rheoleiddiol a chyfreithiol.

Cwestiwn allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

121. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn wahanol i hunan-arfarniad yr ysgol i'r graddau bod yr ysgol wedi rhoi Gradd 2 i'r cwestiwn allweddol hwn.
122. Mae nifer o strategaethau hunan-arfarnu eisoes wedi'u sefydlu ac mae arweinyddion pynciol yn chwarae rôl gynyddol yn y trefniadau. Maent, er enghraifft, yn cwblhau taflenni monitro tymhorol ar gyfer eu meysydd pynciol ac wedi ymgymryd â pheth arsylwadau o safonau ac ansawdd yr addysgu ar lawr y dosbarth. Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau hunan-arfarnu'r ysgol ar hyn o bryd wedi datblygu'n ddigonol i roi iddi ddarlun clir, cyflawn a manwl-gywir o'i pherfformiad.
123. Er bod gweithdrefnau'r ysgol yn sicrhau dadansoddiad o berfformiad disgyblion mewn perthynas â phrofion ac asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, mae lle i roi fwy o sylw i'r agwedd hon fel rhan o'r broses hunan-arfarnu. Nid yw'r ysgol yn gosod targedau am gyfnod treigl yn ôl gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru.
124. Nid oes, ar hyn o bryd, drefniadau ar gyfer canfod barn ffurfiol rhieni a gofalwyr am yr ysgol, ac eithrio trwy eu cynrychiolaeth ar y corff llywodraethol.
125. Mae'r adroddiad hunan-arfarnu, a gynhyrchwyd gan yr ysgol cyn yr arolygiad, yn glir ac yn ddarllenadwy. Rhoddir barn onest ar holl agweddau'r arolygiad, gan nodi'r meysydd a'r agweddau sy'n gryfderau'r ysgol a'r rhai hynny mae wedi adnabod fel materion sydd angen eu datblygu. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barnau'r ysgol mewn pump allan o'r saith cwestiwn allweddol. Dyfarnwyd graddau is ar gyfer cwestiynau allweddol 5 a 6.
126. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen ddefnyddiol i arwain cyfeiriad strategol yr ysgol. Nodir ynddi nifer o flaenoriaethau i'w gwireddu dros amser, y cyfrifoldebau gweithredu sydd gan unigolion, ynghyd â'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer cefnogi'r datblygiadau. Ceir cyswllt da rhwng y blaenoriaethau yma a'r hyn sydd wedi ei nodi fel materion i'w datblygu yn nogfen hunan-arfarnu'r ysgol. Fodd bynnag, mae'r rhaglen weithredu ar gyfer

y flwyddyn addysgol gyfredol yn rhy ysgafn o'i chymharu â'r hyn y bwriedir i ddilyn yn y flwyddyn sydd i ddod.

127. Mae mwyafrif y materion allweddol wnaeth ddeillio o'r arolygiad blaenorol wedi'u bodloni. Aethpwyd i'r afael yn dda â'r materion yn ymwneud ag addysg y plant dan bump oed, cynnwys yr adroddiadau i rieni a'r polisi diogelu plant. Mae'r gweithdrefnau hunan-arfarnu yn dal i ddatblygu ac mae'r cynllun monitro bellach yn cynnwys y pynciau sylfaen. Mae'r safonau mewn Saesneg wedi gwella, er mae yna ddiffygion yn dal o ran y Gymraeg ac nid yw'r disgyblion yn gwneud defnydd digonol o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Cwestiwn allweddol 7: Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

128. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
129. Caiff disgyblion eu cynnal a'u cefnogi'n dda gan nifer ddigonol o athrawon a chanddynt y profiad a'r cymwysterau priodol. Gwneir defnydd da o arbenigedd athrawon sy'n addysgu yn yr ysgol am rai oriau bob wythnos.
130. Mae'r holl staff yr ysgol yn cydweithio'n dda. Mae'r cynorthwyyr yn rhoi cymorth gwerthfawr i'r disgyblion a chânt eu defnyddio'n effeithiol yn y dosbarthiadau.
131. Mae'r rhaglen hyfforddiant mewn swydd yn sicrhau bod pob aelod o staff yr ysgol yn cael cyfle i ddatblygu'n broffesiynol yn unol â blaenoriaethau'r ysgol a datblygiad proffesiynol unigol.
132. Ar y cyfan, mae swm a chyflwr yr adnoddau ar gyfer addysgu a dysgu yn ddigonol ac maent yn hwylus i'r disgyblion eu defnyddio. Er hynny, nid oes digon o gyfrifiaduron ar gael yn y dosbarthiadau i ganiatáu'r disgyblion i ddefnyddio eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn rheolaidd. Mae'r buddsoddiad sylweddol mewn offer ac adnoddau ar gyfer plant dan bump oed yn hyrwyddo cwricwlwm eang a chyfoethog ar eu cyfer.
133. Mae'r arddangosfeydd lliwgar ar waliau'r ystafelloedd dysgu yn cyfrannu at greu ethos, rhoi bri ar waith disgyblion a dathlu eu llwyddiant.
134. Saif yr ysgol ar safle dymunol gyda iard chwarae, cae ar gyfer chwaraeon, cornel tawel ac ardal chwarae bwrpasol i'r plant ieuengaf.
135. Ar y cyfan, mae adeilad yr ysgol mewn cyflwr da a chaiff ei gadw'n lan a thaclus. Mae maint rhai ystafelloedd, yn arbennig ystafelloedd ar gyfer disgyblion blwyddyn 1 a 2 a'r blynyddoedd cynnar, yn gyfyng ac yn amharu ar rai agweddau ar y dysgu a'r addysgu. Nid yw toiledau'r disgyblion ieuengaf ychwaith wedi eu haddasu'n briodol ar gyfer anghenion plant dan bump oed.

Mae cynlluniau adeiladu ar waith i wella'r adeilad a'r cyfleusterau dysgu i'r disgyblion. Mae rhai ardaloedd o fewn yr ysgol nad ydynt yn hygyrch i bobl anabl.

136. Gwneir defnydd effeithiol o'r amgylchedd lleol, y gymuned a safleoedd addysgol i gyfoethogi dysgu'r disgyblion. Caiff hyn ei gyfoethogi ymhellach gan gyfraniadau ymwelwyr â'r ysgol.
137. Mae'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr yn adolygu'r defnydd o adnoddau yn rheolaidd. Cynigia'r ysgol werth am arian.

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

Cymraeg

Cyfnod Allweddol 1 - Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

Cyfnod Allweddol 2 - Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

Nodweddion da

138. Yng nghyfnod allweddol 1, mae disgyblion yn gwrando'n dda ar storïau a gyflwynir iddynt ac ar gyflwyniadau dosbarth. Gwna nifer fach ymdrechion da i ymateb a chymryd rhan mewn trafodaethau am eu profiadau ac agweddau ar eu gwaith. Mae unigolion yn sgwrsio'n rhydd.
139. Mae'r disgyblion mwy galluog yn darllen yn rhugl ac yn ystyrllon a thrafodant yn syml y lluniau a'r cymeriadau yn eu llyfrau.
140. Mae'r disgyblion yn ysgrifennu i wahanol ddibenion. Ffuriant frawddegau syml eu hunain a dilynant batrwm brawddegol yn gywir. Mae'r disgyblion mwy galluog yn dechrau defnyddio amrywiaeth brawddegol ac yn atalnodi'n gywir.
141. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn gwrando'n dda ac yn dangos dealltwriaeth dda wrth iddynt ymateb i gwestiynau. Mae unigolion yn mynegi barn a syniadau'n glir mewn trafodaethau dosbarth.
142. Mae unigolion yn darllen yn rhwydd a deallus ac yn cyflawni safonau da. Maent yn ymwybodol o lyfrau gan wahanol awduron a mynegant farn yn syml ar eu gwaith.
143. Defnyddia'r disgyblion eu medrau darllen yn gynyddol i gywain gwybodaeth o lyfrau a ffynonellau eraill.
144. Wrth ymateb i wahanol dasgau, ysgrifenna'r disgyblion mewn ffurfiau ffeithiol a chreadigol yn effeithiol a llwyddant i ddangos meistrolaeth gywir ar atalnodi a pharagraffu. Gwnânt ddefnydd da o eiriaduron i'w cynorthwyo.

Diffygion

145. Yn y ddau gyfnod allweddol, ymatebion byr a geir gan nifer sylweddol o'r disgyblion wrth rannu eu syniadau a chymryd rhan mewn trafodaethau dosbarth.
146. Yn y ddau gyfnod allweddol, nid yw rhai unigolion yn darllen gyda'r rhwyddineb disgwylidig ac annatblygedig, yn gyffredinol, yw gallu'r disgyblion i drafod cynnwys eu llyfrau darllen.
147. Yng nghyfnod allweddol 1, nid yw medrau ysgrifennu'r disgyblion yn ddigon estynedig. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gwallau sillafu a chystrawen yn amharu ar waith ysgrifennu personol lleiafrif sylweddol o'r disgyblion.

Saesneg

Nid yw'r disgyblion yn dilyn rhaglen astudio Saesneg yn ffurfiol tan ddechrau cyfnod allweddol 2.

Cyfnod Allweddol 2 - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

148. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn gwrando'n dda ar gyflwyniadau'r athrawon ac ar gyfraniadau disgyblion eraill. Defnyddiant eirfa gywir i fynegi eu syniadau a'u barn wrth gymryd rhan mewn trafodaethau dosbarth. Mae unigolion yn defnyddio geirfa estynedig.
149. Mae'r disgyblion yn darllen amrediad priodol o lyfrau ac amlygant agweddau cadarnhaol tuag at ddarllen. Mae'r darllenywyr gorau yn darllen yn rhugl ac yn gywir ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r testunau a ddarllenant. Mae gan rai unigolion hoff awduron a gallant ddisgrifio nodweddion llyfrau eu hoff awdur.
150. Gwna'r disgyblion ddefnydd priodol o ffynonellau addas i gywain gwybodaeth. Defnyddiant eiriaduron yn effeithiol.
151. Ysgrifenna'r disgyblion mewn amrywiaeth o ffurfiau i wahanol bwrpasau. Amlygant ddealltwriaeth dda o ffurfiau iaith. Gwna'r disgyblion hynaf ddefnydd cywir o ferfau ac ansoddeiriau, a datblygant feistrolaeth sicr ar gywair, confensiynau atalnodi a pharagraffu. Dangosant ymwybyddiaeth dda o strwythur a dilyniant.
152. Erbyn diwedd y cyfnod, mae safon llawysgrifen a chyflwyniad gwaith mwyafrif helaeth y disgyblion o safon dda.

Diffygion

153. Mae rhai unigolion yn ddihyder i gynnig sylwadau ac i fynegi barn ar lafar.

Gwyddoniaeth

Cyfnod Allweddol 1 - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnod Allweddol 2 - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

154. Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn ymwneud â nifer dda o weithgareddau gwyddonol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o'r hyn sydd yn ofynnol ar gyfer gwneud prawf teg a gwnânt ragfynegiadau synhwyrol o ganlyniadau posib i'w ymholiadau. Gwnânt arsylwadau uniongyrchol ac maent yn cofnodi canlyniadau eu hymholiadau yn eglur ac mewn ystod dda o ffyrdd.
155. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o'r topigau a astudiwyd yn dda. Maent yn ymwybodol o'r defnydd helaeth a wneir o drydan o'u cwmpas. Gallant adeiladu cylchedau syml ac maent yn sylweddoli na fydd y gylched yn gweithio os bydd toriad ynddi. Maent yn dechrau deall y math o ddefnyddiau sydd angen ar gyfer gwneud swits mewn cylched. Maent yn adnabod y gwahanol ddarnau mewn planhigyn, a thrwy eu hymchwiliadau yn gwybod yr hyn sydd angen ar blanhigion i ffynnu.
156. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn dangos arwyddion o fod yn wyddonwyr ifanc da iawn. Maent yn cynnig eu syniadau eu hunain, yn gofyn cwestiynau gwyddonol ac yn gweithio'n annibynnol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth glir o ofynion profi teg ac maent yn gallu rheoli newidynnau yn dda. Defnyddiant amrywiaeth o fesurau safonol; dônt i gasgliadau dilys ar sail tystiolaeth, a chofnodant eu darganfyddiadau'n drefnus.
157. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o brosesau ffisegol yn datblygu'n dda, er enghraifft, trwy ymchwil maent wedi deall bod grymoedd atynnu a gwrthyrru rhwng magnetau, bod eu cryfder yn amrywio a bod rhai metalau ddim yn cael eu hatynnu ganddynt. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut mae grym yn achosi i bethau gyflymu ac arafu.
158. Mae ymchwiliadau'r disgyblion hyn i'r effaith a gaiff newid yn eu hamodau ar dwf planhigion yn arbennig o drylwyr ac yn waith o safon uchel iawn.

Diffygion

159. Nid yw medrau ymchwilio disgyblion iau cyfnod allweddol 2 wedi eu datblygu'n ddigonol.

Dylunio a thechnoleg

Cyfnod Allweddol 1 - Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

Cyfnod Allweddol 2 - Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

Nodweddion da

160. Yng nghyfnod allweddol 1, mae'r disgyblion yn defnyddio'u sgiliau ymchwilio i ddod o hyd i wybodaeth am wahanol fathau o olwynion fel rhan o'u gwaith i greu gwahanol gerbydau.
161. Wrth drafod eu modelau, gallant egluro pa ddefnyddiau a ddefnyddiwyd ganddynt a sut yr aethpwyd ati i'w gwneud.
162. Mae medrau torri, gludo a phwytho'r disgyblion yn datblygu, ac yn gyffredinol, mae eu gwaith gorffenedig o safon dda.
163. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion wedi defnyddio eu gwybodaeth o gylchedau yn effeithiol i gynllunio a gwneud larymau.
164. Mae gwaith cyfredol y disgyblion hŷn ar gynllunio a gwneud cwch sydd yn symud ar y dŵr yn cael ei gwblhau yn drylwyr. Gwelwyd bod gan nifer ohonynt fedrau da ac mae eu gwerthusiadau o'r gwahanol gychod yn arbennig o ddadansoddol a thrylwyr.

Diffygion

165. At ei gilydd, yn y ddau gyfnod allweddol, nid yw'r disgyblion yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r datblygiad o syniadau cyn penderfynu ar ddyluniad terfynol.
166. Nid yw disgyblion iau cyfnod allweddol 2 yn talu sylw digonol i'w dyluniadau wrth iddynt wneud eu cynhyrchion.
167. Yn y ddau gyfnod allweddol, anghyson yw'r datblygiad o allu'r disgyblion i werthuso eu gwaith yn effeithiol.

| |
|----------------------|
| Daearyddiaeth |
|----------------------|

Cyfnod Allweddol 1 - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnod Allweddol 2 - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

168. Mae gan ddisgyblion cyfnod allweddol 1, ymwybyddiaeth dda o rai o nodweddion daearyddol eu cymdogaeth. Gallant hefyd sôn am yr hyn sydd yn debyg ac yn wahanol rhwng eu hardal a thref Aberystwyth.
169. Maent yn adnabod rhai o'r prif symbolau ac yn eu defnyddio'n gywir i gadw cofnod o'r tywydd. Gwyddant am yr effaith caiff hinsawdd ar y ffordd o fyw a'r hyn mae pobl yn gwisgo.
170. Maent yn wybodus o fywyd ar fferm a bod tir yn cael ei ddefnyddio mewn gwahanol ffyrdd.
171. Dônt i fedru defnyddio cyfesurynnau syml yn gywir, ynghyd â dilyn cyfarwyddiadau ar gynlluniau. Mae eu dealltwriaeth o gyfeiriad, gan gynnwys pedwar pwynt y cwmpawd, yn datblygu'n dda.

172. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan y disgyblion wybodaeth dda am wledydd Ewrop. Gallant ddilyn taith wyliau ar hyd y cyfandir, gan ddefnyddio'u dealltwriaeth o gyfeiriad a graddfa yn dda.
173. Maent yn dod i ddefnyddio cyfeirnodau chwe ffigur ar fapiau lleol yn gywir.
174. Gwyddant am y ffactorau ffisegol ac economaidd sy'n gefndir i'r gwahaniaethau rhwng ardaloedd y fforestydd glaw, Lesotho a Chymru.
175. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o faterion amgylcheddol ac o'r effaith y gall newidiadau eu cael, gan gydnabod eu cyfrifoldebau eu hunain yn y cyswllt hwn.

Diffygion

176. Nid yw'r disgyblion yn ymarfer digon o'u medrau daearyddol mewn gwaith maes.

| |
|-------------------------|
| Addysg grefyddol |
|-------------------------|

Cyfnod Allweddol 1 - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnod Allweddol 2 - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

177. Yng nghyfnod allweddol 1, mae gan y disgyblion wybodaeth dda am hanesion o'r Beibl. Gwyddant hanesion rhai o brif gymeriadau'r Hen Destament ynghyd â hanesion am fywyd yr Iesu. Gallant eu dwyn i gôf a'u hailadrodd ar lafar, mewn lluniau ac yn ysgrifenedig.
178. Dengys y disgyblion wybodaeth dda o wyliau a dathliadau Cristnogol a gwyddant am brif ddathliadau y grefydd Hindŵaidd.
179. Ysgrifenna'r disgyblion weddïau personol o ansawdd da a deallant beth yw pwrpas gweddi.
180. Yn dilyn ymweliad â chapel ac eglwys, dengys disgyblion ddealltwriaeth dda o seremoni'r bedydd ac maent yn ymwybodol o waith y ficer a'r gweinidog.
181. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn gwybod mai Cristnogaeth yw prif grefydd Cymru a gallant siarad yn synhwyrol am rai o nodweddion bywyd y Cristion. Gallant ailadrodd hanesion cyfarwydd o'r Beibl yn hyderus.
182. Ysgrifenna'r disgyblion weddïau ystyrllon. Deallant yn dda arwyddocâd gweddi mewn crefyddau ac addoliad.
183. Mae'r disgyblion yn gyfarwydd â phrif elfennau crefyddau eraill megis Iddewiaeth, Islam a Hindŵaeth. Trafodant y gwahanol ffyrdd o addoli, a'r arteffactau a'r symbolau a berthyn i'r crefyddau hyn, yn effeithiol.

184. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o egwyddorion, megis gofal am eraill a'r hyn sy'n gwneud ffrind da.

Diffygion

185. Yn y ddau gyfnod allweddol, nid yw'r disgyblion bob amser yn defnyddio'r termau priodol wrth drafod y pwnc.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

186. Roeddem fel ysgol gyfan yn falch iawn i nodi'r cryfderoedd a nodwyd gan y tîm arolygu yn yr adroddiad, yn enwedig ein bod yn llwyddo i greu ysgol hapus ag awyrgylch ddiogel sy'n hyrwyddo dysgu ac addysgu.
187. Yr ydym yn derbyn yr argymhellion a nodwyd ac fe sefydlir cynllun gweithredu yn syth, er mwyn mynd i'r afael â'r materion allweddol.
188. Mi fyddwn yn sicrhau bod y pwyntiau hyn yn cael eu cynnwys yn nghynllun datblygu'r ysgol. Hefyd, mi fyddwn yn sicrhau bod staff yr ysgol yn parhau i ddatbygu ac i ymestyn eu sgiliau trwy raglen o hyfforddiant mewn swydd addas.
189. Cafwyd adborth adeiladol a phwrpasol gan yr arolygwyr a fydd yn gymorth i ni i roi'r cynllun gweithredu yn ei le.
190. Anfonir copi o'r cynllun gweithredu at y rhieni a bydd adroddiad blynyddol y corff llywodraethol i'r rhieni hefyd yn adrodd y cynnydd a wneir parthed yr argymhellion hyn.
191. Ar ran y staff a'r disgyblion, hoffwn yn ddiffuant, ddiolch i'r tîm am eu proffesiynoldeb a'u cwrteisi yn ystod yr arolygiad.

Atodiad A

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r ysgol | Ysgol Pum Heol |
| Math o ysgol | Cymunedol |
| Ystod oedran y disgyblion | 3-11 mlwydd |
| Cyfeiriad yr ysgol | Heol Hen Pum Heol Llanelli Sir Gaerfyrddin |
| Cod post | SA15 5EZ |
| Rhif ffôn | (01269) 860498 |
| Pennaeth | Mr G T Gravell |
| Dyddiad penodi | Medi 1998 |
| Cadeirydd y Llywodraethwyr/ Awdurdod priodol | Cyng J Jones |
| Arolygydd Cofrestredig | Miss Dorothy Morris |
| Dyddiadau'r arolygiad | 20-22 Mehefin 2005 |

Atodiad B

Data a dangosyddion yr ysgol

| Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn | | | | | | | | | |
|--|------------|----|----|----|----|----|----|----|----------|
| Grŵp blwyddyn | M call) | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfanswm |
| Nifer ydisgyblion | 11 | 10 | 15 | 10 | 9 | 9 | 14 | 12 | 90 |

| Cyfanswm nifer yr athrawon | | | |
|----------------------------|-------------|------------|----------------------------------|
| | Amser llawn | Rhan-amser | Cyferwerth ag amser llawn (call) |
| Nifer yr athrawon | 4 | 1 | 4.4 |

| Gwybodaeth staffio | |
|--|--------|
| Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig) | 22.4:1 |
| Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin | - |
| Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig | - |
| Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig | 24.25 |
| Cymhareb athro (call): dosbarth | 1.1:1 |

| Canran y presenoldeb ar gyfer y tri thymor llawn cyn yr arolygiad | | | |
|---|-----|-----|-------------------|
| Tymor | M | D | Gweddill yr ysgol |
| Gwanwyn 2005 | 92% | 92% | 94% |
| Hydref 2004 | 95% | 96% | 95% |
| Haf 2004 | 95% | 95% | 95% |

| | |
|--|----|
| Canran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim | 9% |
| Nifer y disgyblion a waharddwyd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad | 0 |

Atodiad C

Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol: Diwedd Cyfnod Allweddol 1

| | | |
|---|--------------------------|---|
| Canlyniadau Aseidiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2004 | Nifer y disgyblion yn B2 | 9 |
| Gan fod nifer y disgyblion cymwys i'w hasesu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 yn uwch na phedwar ond yn llai na 10, dim ond dangosyddion perfformiad cyffredinol a gynhwysir | | |

| | | | |
|--|-----|-------------|-----|
| Canran y disgyblion yn cyrraedd lefel 2 o leiaf mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (mamiath) yn ôl aseiad athro | | | |
| Yn yr ysgol | 89% | Yng Nghymru | 80% |

Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol: Diwedd Cyfnod Allweddol 2

| | | | | | | | | | | | | |
|---|--------------|--------------|--------------------------|---|---|---|----|---|----|----|----|---|
| Canlyniadau Aseidiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2004 | | | Nifer y disgyblion yn B6 | | | | 12 | | | | | |
| Canran y disgyblion ar bob lefel | | | | | | | | | | | | |
| | | | D | A | F | W | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
| Saesneg | Aseiad athro | Ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 25 | 17 | 58 | |
| | | Cenedlaethol | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 5 | 16 | 46 | 30 | |
| | Prawf/Tasg | Ysgol | 0 | 0 | 8 | 0 | 0 | 0 | 17 | 42 | 33 | |
| | | Cenedlaethol | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 4 | 13 | 42 | 37 | |
| Cymraeg | Aseiad athro | Ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 36 | 27 | 36 | |
| | | Cenedlaethol | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 | 3 | 17 | 49 | 28 | |
| | Prawf/Tasg | Ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 27 | 36 | 36 | |
| | | Cenedlaethol | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 2 | 15 | 49 | 30 | |
| Mathemateg | Aseiad athro | Ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 33 | 42 | 25 | |
| | | Cenedlaethol | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 3 | 17 | 46 | 31 | |
| | Prawf/Tasg | Ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 25 | 17 | 59 | |
| | | Cenedlaethol | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 3 | 15 | 43 | 36 | |
| Gwyddoniaeth | Aseiad athro | Ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | 25 | 33 | 42 | |
| | | Cenedlaethol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 11 | 50 | 37 | |
| | Prawf/Tasg | Ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 8 | 67 | 25 | |
| | | Cenedlaethol | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 8 | 51 | 39 | |

| | | | |
|---|-----|-------------|-----|
| Canran y disgyblion yn cyrraedd lefel 4 o leiaf mewn mathemateg, gwyddoniaeth, a naill ai Saesneg neu Gymraeg (mamiath) | | | |
| yn ôl Aseiad Athro | | yn ôl Prawf | |
| Yn yr ysgol | 67% | Yn yr ysgol | 75% |
| Yng Nghymru | 72% | Yng Nghymru | 72% |

- D Disgyblion yn cael eu heithrio dan drefniadau statudol o ran neu'r cyfan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol
A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau heblaw am absenoldeb
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

Atodiad Ch

Sail dystiolaeth yr arolygiad

- Arolygodd y tîm o dri o arolygwyr waith ym mhob dosbarth. Rhyngddynt buont chwe diwrnod llawn yn yr ysgol;
- cynhaliwyd cyfarfodydd cyn yr arolygiad gyda llywodraethwyr, staff a rhieni;
- archwiliwyd ystod o ddogfennaeth a gynhyrchwyd gan yr ysgol, gan gynnwys enghreifftiau o waith y disgyblion ar draws y cwricwlwm yn y blynyddoedd cynnar a'r ddau gyfnod allweddol;
- arsylwyd ar 20 o wersi neu sesiynau;
- mynychwyd y gwasanaethau boreol;
- gwrandawyd ar ddisgyblion yn darllen ac fe'u holwyd ynghylch eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cwricwlwm;
- arolygwyd cofrestrau'r ysgol;
- cynhaliwyd trafodaethau gyda'r pennaeth a staff yr ysgol yn ymwneud â materion rheolaethol a chwricwlaidd;
- archwiliwyd cofnodion cyfarfodydd y llywodraethwyr ynghyd â dogfennau sy'n gysylltiedig â materion ariannol yr ysgol;
- arsylwyd ar y disgyblion wrth iddynt gyrraedd a gadael yr ysgol, ac yn ystod amser egwyl;
- roedd 17 rhiant yn bresennol yn y cyfarfod cyn-arolygiad a dychwelwyd 33 o holiaduron;
- cynhaliwyd cyfarfod ar ôl yr arolygiad gyda'r staff a'r corff llywodraethol.

Atodiad D

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

| Arolygydd | Math | Agweddau | Pynciau/meysydd dysgu |
|---------------|-------|---|--|
| Miss D Morris | A Cof | Cyd-destun; Crynodeb Argymhellion; Atodiadau Cwestiynau allweddol 1; 2; 5 a 7 | Cymraeg; Saesneg; Addysg Grefyddol |
| Mr D M Cray | Tîm | Cwestiynau allweddol 3; 4 a 6 | Gwyddoniaeth; Dylunio a Thechnoleg; Daearyddiaeth. |
| Mr E James | Lleyg | Cyfrannu at gwestiynau allweddol 1; 3; 4 a 7 | |

Contractwr: Arolygiadau Deheubarth Inspections; Afallon; Heol Llandeilo; Gorslas; Llanelli; SA14 7LU.

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r arolygwyr a fu'n ymweld â'r ysgol ddiolch i'r llywodraethwyr, i'r pennaeth a'r staff, am y cydweithrediad a'r cwrteisi a roddwyd iddynt yn ystod yr arolygiad.

ADRODDIAD CRYNO

AR YR AROLYGIAD O YSGOL PUM HEOL

© Hawlfraint y Goron 2005. Gellir aildefnyddio'r Adroddiad hwn yn rhad ac am ddim ar unrhyw ffurf neu gyfrwng cyhyd ag y bod yn cael ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr Adroddiad. Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol. O dan Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996, rhaid i'r ysgol roi copïau o'r adroddiad hwn yn rhad ac am ddim i gategoriâu penodol o bobl. Hwyrach y caiff ffi heb fod yn fwy na chost atgynhyrchu ei chodi ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Pum Heol fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Y diben yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg sy'n cael ei gynnig a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Mae'r arolygiad o'r holl ysgolion o fewn cylch chwe blynedd hefyd wedi'i gynllunio i roi mwy o wybodaeth i rieni am ysgol eu plentyn. Caiff copi o'r crynodeb hwn ei anfon at bob teulu sydd â phlentyn yn yr ysgol. **Gellir cael copi o'r adroddiad llawn gan yr ysgol.**

Cynhaliwyd arolygiad Ysgol Pum Heol rhwng 21–23 Mehefin 2005. Cynhaliodd tîm annibynnol o arolygwyr, a arweiniwyd gan Miss Dorothy Morris yr arolygiad. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond sydd wedi 'i ariannu ganddo.

Roedd angen i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan y disgyblion, ansawdd yr addysg sy'n cael ei gynnig gan yr ysgol, ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth, a'r cyfraniad a wnaed gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion.

Mae'r raddfa bum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli holl farnau'r arolygiad yn yr adroddiad hwn, fel a ganlyn:

| | |
|----------------|--|
| Gradd 1 | da gyda nodweddion eithriadol |
| Gradd 2 | nodweddion da a dim diffygion pwysig |
| Gradd 3 | nodweddion da'n gorbwyso diffygion. |
| Gradd 4 | rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig. |
| Gradd 5 | llawer o ddiffygion pwysig |

Mae'r ysgol yn llwyddo yn ei hamcanion wrth greu amgylchedd cefnogol a gofalgar. Mae'r holl staff yn adnabod y disgyblion yn dda, gan gymryd diddordeb mawr yn eu datblygiad a'u lles personol.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Barnodd y tîm arolygu waith yr ysgol fel a ganlyn:

| Cwestiwn allweddol | Gradd yr arolygiad |
|---|---------------------------|
| Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? | Gradd 2 |
| Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? | Gradd 2 |
| Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? | Gradd 2 |
| Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr? | Gradd 2 |
| Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? | Gradd 3 |
| Pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? | Gradd 3 |
| Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? | Gradd 3 |

Safonau

Yn y gwersi a arolygwyd, mae safonau cyflawniad y disgyblion fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|
| 0% | 60% | 40% | 0% | 0% |

Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion a gwnânt gynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, mae safonau cyflawniad y disgyblion yn y pynciau a arolygwyd fel a ganlyn:

| Pynciau | Cyfnod allweddol 1 | Cyfnod allweddol 2 |
|----------------------|---------------------------|---------------------------|
| Cymraeg | Gradd 3 | Gradd 3 |
| Saesneg | ---- | Gradd 2 |
| Gwyddoniaeth | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Dylunio a thechnoleg | Gradd 3 | Gradd 3 |
| Daearyddiaeth | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Addysg grefyddol | Gradd 2 | Gradd 2 |

Gwna'r disgyblion gynnydd cyson yn eu dysgu a llwyddant i gyflawni'r nodau dysgu cytunedig.

Mae plant y Blynyddoedd Cynnar yn gwneud cynnydd da mewn gwrando, siarad, darllen, ysgrifennu, rhifedd a defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Yn y ddau gyfnod allweddol, mae safonau a chynnydd disgyblion unigol ym medrau allweddol llythrennedd sef gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg ar draws y cwricwlwm, yn dda. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn ymestyn eu medrau llythrennedd yn gyson ar draws y pynciau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau medrau siarad, gwrando ac ysgrifennu Saesneg mwyafrif helaeth y disgyblion yn dda. Ni wna'r disgyblion ddefnydd digonol o'u medrau darllen i gasglu gwybodaeth o wahanol ffynonellau, yn arbennig llyfrau cyfair, yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Yn y ddau gyfnod allweddol, gwna'r disgyblion ddefnydd da o'u medrau rhifedd yn eu gwaith ar draws y pynciau. Mae disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn defnyddio eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn effeithiol mewn rhai pynciau, ond nid ydynt yn datblygu ac yn ymestyn y medrau hyn yn ddigon rheolaidd.

Dengys safonau a chynnydd disgyblion yn eu hyfedredd dwyieithog gynnydd da.

Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da a weithiau da iawn, a chyflawnant y targedau a osodir iddynt. Mae gan y disgyblion eraill dargedau gwelliant i ymgynraedd atynt. Yn gyffredinol, nid oes ganddynt ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ddigonol o'u cryfderau a'u gwendidau a'r hyn mae'n rhaid iddynt ei wneud i gyflawni safonau uwch.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 1, yn nhasgau asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2004, roedd cyrhaeddiad disgyblion yn ôl asesiadau'r athrawon yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. O'u cymharu ag ysgolion ledled Cymru â chanran gyffelyb o ddisgyblion â'r hawl i ginio am ddim, roedd canlyniadau'r ysgol at ei gilydd yn y 50% uchaf. Mae canlyniadau'r ysgol wedi dal yn gyson dros y tair blynedd diwethaf, ac nid oes unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched.

Yng nghyfnod allweddol 2, roedd cyrhaeddiad y disgyblion yn nhasgau a phrofion y Cwricwlwm Cenedlaethol 2004 yn uwch na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol yng ngwyddoniaeth ond yn is yn y Gymraeg, Saesneg a mathemateg. Mae canlyniadau'r ysgol at ei gilydd dros y tair blynedd diwethaf wedi bod yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol a sirol. O'u cymharu ag ysgolion ledled Cymru â chanran gyffelyb o ddisgyblion â'r hawl i ginio am ddim, roedd canlyniadau'r ysgol at ei gilydd yn 2004, yn y 50% isaf. Nid oes unrhyw wahaniaethau arwyddocaol ym mherfformiad bechgyn a merched.

Dengys disgyblion ddatblygiad da yn eu medrau personol a chymdeithasol, ac yn eu gallu i gydweithio. Mae medrau dysgu'r disgyblion yn datblygu'n dda a gwelir cynnydd cyson yn eu medrau datrys problemau a'u medrau creadigol.

Weithiau, mae disgyblion mwy galluog yn gweithio ar dasgau nad ydynt yn cynnig digon o her i ymestyn eu dysgu.

Mae agweddau disgyblion tuag at eu dysgu, y diddordeb a ddangosant yn eu gwaith a'u gallu i ganolbwyntio yn dda. Ar adegau, maent yn dibynnu'n ormodol ar gymorth oedolion i'w cynorthwyo gyda'u tasgau.

Mae ymwybyddiaeth disgyblion o gyfleoedd cyfartal yn datblygu'n dda ac mae ganddynt barch at yr amrywiol gredoau, agweddau a thraddodiadau diwylliannol a geir mewn cymdeithas.

Mae ymddygiad y disgyblion yn dda iawn. Mae ganddynt ddealltwriaeth eglur o'r hyn a ddisgwylir oddi wrthynt ac maent yn ystyriol a chwrtais. Mae ymddygiad arbennig y disgyblion yn cyfrannu'n arwyddocaol i'r awyrgylch gartrefol a chynorthwyol sydd yn yr ysgol. Mae hon yn nodwedd ragorol o'r ddarpariaeth.

Ar gyfer y tri thymor cyn yr arolygiad, 95% oedd canran y presenoldeb ar gyfartaledd. Mae mwyafrif helaeth y disgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac maent yn brydlon ar ddechrau'r dydd.

Mae'r disgyblion yn ymwybodol iawn am fywyd cymunedol eu hardal a chyfrannant i lawer o achlysuron lleol. Maent yn gyfarwydd â rhai agweddau o fyd gwaith drwy ychydig ymweliadau. Er hynny, prin yw gwybodaeth y disgyblion o fyd gwaith.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd bod ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|
| 5% | 55% | 40% | 0% | 0% |

Mae'r nodweddion da a rhagorol i'r addysgu yn cynnwys:

- amcanion eglur i'r addysgu a'r dysgu;
- cyflwyniadau ysgogus ac esboniadau clir;
- cydadweithio effeithiol rhwng athro a disgybl;
- holi da sy'n annog disgyblion i feddwl cyn cynnig atebion;
- tasgau heriol ac ymestynnol.

Mae'r diffygion mwyaf cyffredin yn yr addysgu'n cynnwys:

- cyfleoedd annigonol i'r disgyblion i ymestyn eu medrau llafar a'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu;
- tasgau a gweithgareddau heb eu strwythuro'n ddigon manwl ar gyfer anghenion disgyblion o wahanol oed a gallu yn y dosbarthiadau;
- cyfleoedd annigonol i'r disgyblion i weithio'n annibynnol;
- gor-ddefnydd o daflenni gwaith.

Mae gan yr ysgol ystod o weithdrefnau addas ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd y disgyblion. Yn yr arfer orau, gwneir defnydd da o asesu i hybu'r cynllunio ac adnabod yr hyn sydd angen i'r disgyblion ei wneud i wella safon eu gwaith. Nid yw'r drefn yn gyson ar draws yr ysgol. Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni o ansawdd da.

Ar y cyfan, mae'r ysgol yn ymateb yn dda i anghenion dysgu disgyblion ac fe gânt gyfleoedd cyfartal i fanteisio ar gwricwlwm eang a chytbwys. Mae'r cynlluniau gwaith ar gyfer y ddau gyfnod allweddol yn amrywio o ran manylder ac arweiniad. Mae lle i sicrhau cysondeb ysgol-gyfan mewn cynlluniau byr dymor yr athrawon, ynghyd â'r datblygiad mwy bwriadus o fedrau allweddol, yn enwedig medrau llythrennedd Cymraeg, a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion.

Hyrwyddir datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae'r weithred o gyd-addoli yn cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth disgyblion o faterion moesol ac ysbrydol.

Mae'r bartneriaeth gyda'r rhieni yn dda ac yn ystod yr ymgynghoriad cyn- arolygiad gwelwyd eu bod yn gwerthfawrogi'r hyn a ddarperir gan yr ysgol. Mae'r ysgol wedi cwrdd â'r gofynion i ddosbarthu cytundeb cartref ag ysgol, ond nid oes cyfran uchel o'r cytundebau wedi eu dychwelyd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn dda ac fe gyflawna ofynion y Côd Ymarfer.

Mae'r ysgol eisoes wedi mynegi consŷrn am un mater yn ymwneud â iechyd a diogelwch ac mae'r tîm arolygu o'r farn y byddai'n briodol i ofyn am asesiad risg ac adroddiad ffurfiol arbenigwyr er cael arweiniad pellach ar y mater.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae rheolaeth y pennaeth yn bwrpasol ac mae'n cynnig cyfeiriad clir i waith yr ysgol. Caiff nodau a gwerthoedd cytûn, sy'n hyrwyddo cydraddoldeb i bawb, eu hadlewyrchu'n dda yng ngwaith yr ysgol.

Cydweithia'r staff yn dda a dangosant ymrwymiad mawr i'r ysgol. Caiff eu datblygiad proffesiynol parhaus ei hyrwyddo'n effeithiol.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen ddefnyddiol sy'n cynnwys nodau a thargedau priodol sy'n seiliedig ar anghenion yr ysgol. Gwneir cynnydd cyson i gyflawni'r prif flaenoriaethau. Nid yw gweithdrefnau monitro ac arfanu'r ysgol wedi eu datblygu'n ddigonol er sicrhau gwelliant pellach.

Lluniwyd ystod eang o bolisïau ysgol-gyfan a chânt eu gweithredu'n gyson. Er hynny, nid yw rhai gweithdrefnau na chynnwys llawlyfr yr ysgol ac adroddiad blynyddol y corff llywodraethol i'r rhieni, yn cwrdd yn llawn â'r gofynion cyfredol.

Mae'r adroddiad hunan-arfarnu, a gynhyrchwyd gan yr ysgol cyn yr arolygiad, yn glir ac yn ddarllenadwy. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barnau'r ysgol mewn pump allan o'r saith cwestiwn allweddol. Dyfarnwyd graddau is ar gyfer cwestiynau allweddol 5 a 6.

Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth dda am anghenion yr ysgol a chyfrannant yn effeithiol at osod cyfeiriad strategol i'r ysgol. Mae aelodau yn ymweld â'r ysgol i drafod ac i arsylwi ar agweddau ar y ddarpariaeth, ond nid yw eu cyfraniad i'r broses hunan-arfarnu wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Gwnaeth yr ysgol gynnydd da ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r mwyafrif o'r materion allweddol wedi'u bodloni. Er hynny, mae angen sylw pellach ar rai materion megis datblygu gweithdrefnau hunan-arfarnu.

Mae nifer digonol o athrawon a staff cynnal i ymgymryd â gwaith yr ysgol. Ar y cyfan, mae swm, a chyflwr, yr adnoddau ar gyfer addysgu a dysgu yn ddigonol ac maent yn hwylus i'r disgyblion eu defnyddio. Er hynny, nid oes digon o gyfrifiaduron ar gael yn y dosbarthiadau i ganiatáu'r disgyblion i ddefnyddio eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn rheolaidd.

Ar y cyfan, mae adeilad yr ysgol mewn cyflwr da a chaiff ei gadw'n lan a thaclus. Mae maint rhai ystafelloedd, yn arbennig ystafelloedd ar gyfer disgyblion blwyddyn 1 a 2 a'r blynyddoedd cynnar, yn gyfyng ac yn amharu ar rai agweddau ar y dysgu a'r addysgu. Nid yw toiledau'r disgyblion ieuengaf ychwaith wedi eu haddasu'n briodol ar gyfer anghenion plant dan bump oed. Mae cynlluniau adeiladu ar waith i wella'r adeilad a'r cyfleusterau dysgu i'r disgyblion.

Gwneir defnydd effeithiol o'r amgylchedd lleol, y gymuned a safleoedd addysgol i gyfoethogi dysgu'r disgyblion. Mae'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr yn adolygu'r defnydd o adnoddau yn rheolaidd a chynigia'r ysgol werth am arian.

Argymhellion

Er mwyn gwella'r meysydd a arolygwyd yn yr ysgol, mae angen i'r staff a'r llywodraethwyr:

- A1: gynnal y safonau da a gwella safonau mewn pynciau a meysydd eraill trwy fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd;
- A2: ymestyn medrau llythrennedd Cymraeg a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion ar draws y cwricwlwm;
- A3: ledaenu'r arfer dda er mwyn sefydlu trefn ysgol-gyfan ar gyfer cynllunio ac asesu'r cwricwlwm;

- A4: ddatblygu ymhellach y drefn hunan-arfarnu fel modd i sicrhau gwelliant;
- A5: sicrhau bod gweithdrefnau'r ysgol a chynnwys y dogfennaeth yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion cyfredol;
- A6: sicrhau asesiad risg ac adroddiad ffurfiol arbenigwyr er cael arweiniad pellach ar y mater iechyd a diogelwch a drafodwyd gyda'r pennaeth a'r Corff Llywodraethol.

Y corff llywodraethol sy'n gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu presennol i ymgorffori camau mewn ymateb i'r argymhellion o fewn 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn mae'r ysgol yn bwriadu ei wneud am yr argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodedb ohono, yn cael ei ddsbarthu i holl rieni'r ysgol.

Hoffai'r arolygwyr a fu'n ymweld â'r ysgol ddiolch i'r llywodraethwyr, i'r pennaeth a'r staff, am y cydweithrediad a'r cwrteisi a roddwyd iddynt yn ystod yr arolygiad.